OWEN, MARGARET (' Peggy ') (1742 - 1816),

Enw: Margaret Owen
Dyddiad geni: 1742
Dyddiad marw: 1816
Rhiant: Elizabeth Owen (née Lyster)
Rhiant: Lewys Owen
Rhyw: Benyw
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Bertie George Charles

cyfeilles Hester Lynch Piozzi (Thrale) a'r Dr. Samuel Johnson; merch Lewys Owen (1696 - 1746), mab ieuengaf Syr Robert Owen, Brogyntyn, Sir Amwythig, o'i wraig Elisabeth, merch Richard Lyster, Penrhos, Sir Drefaldwyn, a Moynes Court, sir Fynwy. Yr oedd ei thad yn gymrawd yng Ngholeg All Souls, Rhydychen, ac yn rheithor Barking, swydd Essex (1735-46), a Wexham, swydd Buckingham (1742-6). Ganed Margaret Owen yn 1742 yn Barking a bedyddiwyd hi yno ar 28 Tachwedd. Ar ôl marw ei mam tua 1756-8 ym Mhenrhos (cartref y teulu ar ôl dyddiau'r tad), magwyd hi a'i brawd trafferthus John Owen (1741 - 1823) gan eu modryb, Susanna Lyster. Yn Amwythig yr oedd ei chartref ond treuliodd gryn dipyn o'i hamser yng nghwmni Mrs. Thrale, perthynas pell iddi a chyfaill bore oes. Trwy Mrs. Thrale y daeth i gysylltiad â chylch llenorion enwog y cyfnod. Erbyn 1777 yr oedd ar delerau cyfeillgar â'r Dr. Johnson, Dr. Charles Burney, Samuel Boswell, Fanny Burney, William Seward, ac eraill, a chedwir yn y Llyfrgell Genedlaethol (casgliad Brogyntyn) rai o'r llythyrau a ysgrifennwyd iddi gan y Dr. Johnson, Mrs. Thrale, a Fanny Burney. Yn 1777 peintiodd Syr Joshua Reynolds ddarlun ohoni. Bu farw'n ddibriod yn Amwythig ar 25 Hydref 1816 a chladdwyd hi ym Mhenrhos ar 6 Tachwedd.

Awdur

Dr Bertie George Charles, (1908 - 2000)

Ffynonellau

Cornhill Magazine, Medi 1939, 334-51

J. L. Clifford, *Hester Lynch Piozzi (Mrs. Thrale)* (Oxford 1941), 1941

K. C. Balderston (gol.), *Thraliana the diary of Mrs. Hester Lynch Thrale (later Mrs. Piozzi) 1776-1809* (Oxford 1942)

The Gentleman's Magazine, Mai 1833, 418

P. Merritt, *The True Story of the So-called Love Letters of Mrs. Piozzi 'in defence of an elderly lady'* (Caergrawnt 1927), 57

Scott (gol.) a Bottse (gol.), *Index to the Private papers of James Boswell from Malahide castle in the collection of Lt.-Colonel Ralph Heyward Isham* (Llundain 1937), cyfrolau 11, 14

Marquis of Lansdowne (gol.), *The Queeney Letters. Being letters addressed to Hester Maria Thrale by Doctor Johnson, Fanny Burney and Mrs. Thrale-Piozzi* (Llundain 1934) 1934

A. Dobson, *Fanny Burney (Madame D'Arblay)*

O. Knapp (gol.), *The Intimate Letters of Hester Piozzi and Penelope Pennington, 1788-1821* (Llundain 1913)

A. R. Ellis (gol.), *The Early Diary of Fanny Burney*

G. Birbeck Hill (gol.), adol. L. F. Powell, *The Life of Samuel Johnson, LL. D comprehending an account of his studies and numerous works, in chronological order, a series of his epistolary correspondence and conversations with many eminent persons, and various original pieces of his composition, never before published the whole exhibiting a view of literature and literary men in Great Britain, for near half a century, during which he flourished in three volumes* (Dulyn 1792)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu